Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyrchfannau dysgwyr, Awst 2021 i Orffennaf 2023


**Cyfeirnod ystadegau:** Sta/Medr/18/2025

**Dyddiad:** 10 Rhagfyr 2025

**Dynodiad:** Ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu



**E-bost:** ystadegau@medr.cymru



**Crynodeb:** Cyrchfannau cyflogaeth a dysgu ar gyfer dysgwyr addysg bellach, y chweched dosbarth mewn ysgolion a dysgu seiliedig ar waith yn y flwyddyn yn dilyn eu rhaglen astudio.


**Thema** Addysg bellach, y chweched dosbarth, dysgu seiliedig ar waith

**Ffynhonnell:**
Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)
Casgliadau Data ôl-16
Data Addysg wedi'u Paru (MED)
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
Data cyflogaeth P45 a P14

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


Nodyn....2
Diffiniadau'r mesurau....2
Prif bwyntiau....3
Cyrchfannau dysgwyr ôl-16....4
Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl lefel y rhaglen ddysgu a derfynwyd....6
Cyrchfannau dysgu parhaus ar gyfer dysgwyr ôl-16....8
Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl nodweddion dysgwyr....10
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)....20
Geirfa....22
Nodiadau....23
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg....25
Ystadegau cysylltiedig....26
Y diweddariad nesaf....26
Gwybodaeth gyswllt....26

## Nodyn

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data addysg wedi'u paru sy'n gysylltiedig â'r Astudiaeth o Ddeilliannau Addysg Hydredol (LEO) i ddangos cyrchfannau cyflogaeth a dysgu ar gyfer dysgwyr addysg bellach, y chweched dosbarth mewn ysgolion, a dysgu seiliedig ar waith yn y flwyddyn ar ôl eu rhaglen astudio.

Mae datganiad ar wahân yn darparu gwybodaeth am gyflawniad y dysgwr.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r negeseuon yn y data. Mae'r tablau cysylltiedig yn cynnwys y dadansoddiadau llawn ar gyfer yr holl fesurau yn ôl yr holl nodweddion yn yr erthygl hon.

## Diffiniadau'r mesurau

Mae a wnelo cyrchfan dysgwr â'i weithgarwch y flwyddyn academaidd ganlynol. Felly, ar gyfer carfan 2022/23, adroddir ar gyrchfannau ar gyfer 2023/24.

Rydym wedi grwpio cyrchfannau dysgwyr i'r categorïau canlynol at ddibenion adrodd.

### Cyflogaeth barhaus

Rhaid i ddysgwyr fod mewn cyflogaeth â thâl fel y'i cofnodir mewn cofnodion Talu Wrth Ennill (PAYE) am o leiaf un diwrnod y mis ym mhump o'r chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol, neu fod wedi dychwelyd ffurflen hunanasesu yn dangos iddynt dderbyn incwm o hunangyflogaeth yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

### Dysgu parhaus

Rhaid i ddysgwyr fod yn dysgu ar lefel gydradd neu uwch na'r rhaglen a derfynwyd ganddynt am o leiaf un diwrnod y mis ym mhob chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol.

### Cyrchfan barhaus

Dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrchfan barhaus mewn cyflogaeth neu ddysgu (neu'r ddau).

Gan gydnabod nad yw'r mesur dysgu parhaus uchod o reidrwydd yn adlewyrchu gwerth llawn dysgu pellach ar bob lefel, cyflwynir mesur eilaidd sy'n dangos yr holl ddysgu:

### Dysgu (heb fod yn barhaus)

Rhaid i ddysgwyr fod yn dysgu ar lefel gydradd neu uwch na'r rhaglen a derfynwyd ganddynt am o leiaf un diwrnod rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol.

### Cyrchfan dysgu a chyflogaeth barhaus

Dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrchfan cyflogaeth barhaus neu gyrchfan ddysgu (nid oes angen iddi fod yn barhaus).


Mae data ar y mesurau cyrchfan Dysgu (heb fod yn barhaus) a Dysgu a chyflogaeth barhaus wedi'u cynnwys yn y tablau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

## Prif bwyntiau

### Trosolwg

**Mae'r gyfradd cyrchfannau parhaus gyffredinol wedi cynyddu fymryn ers 2014/15.**

**Ffigur 1:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, 2014/15 i 2022/23




Disgrifiad: Mae'r gyfradd cyrchfannau parhaus wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2014/15, gan gynyddu o 83% i 86% yn 2020/21 a 2022/23.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Gweler y wybodaeth allweddol am ansawdd am fanylion.

Data yn Nhabl 1a ar y daenlen gysylltiedig.

Mae cyfraddau cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus wedi cynyddu'n gyffredinol o 2014/15, a chyflogaeth barhaus yw'r gyrchfan fwyaf cyffredin.

Aeth 49% o ddysgwyr yn 2022/23 ymlaen i gyrchfan ddysgu barhaus, cynnydd o 47% yn 2021/22. Mae'r gyfradd cyflogaeth barhaus wedi gostwng 1 pwynt canran i 62% yn 2022/23.

## Cyrchfannau dysgwyr ôl-16

O'r 103,245 o ddysgwyr ôl-16 a orffennodd raglen ddysgu yn 2021/22 a'r 99,755 o ddysgwyr ôl-16 a orffennodd raglen ddysgu yn 2022/23:


- Roedd gan 85% gyrchfan barhaus yn 2021/22, ac 86% gyrchfan barhaus yn 2022/23.
- Roedd 63% mewn cyflogaeth barhaus yn 2021/22, a 62% mewn cyflogaeth barhaus yn 2022/23.
- Roedd 47% mewn dysgu parhaus yn 2021/22, a 49% mewn dysgu parhaus yn 2022/23.

Mae cyfraddau cyrchfannau parhaus, cyflogaeth barhaus, a dysgu parhaus ar gyfer dysgwyr 2021/22 a 2022/23 yn cyd-fynd yn fras â'r lefelau a welwyd yn y blynyddoedd cynt:

- Mae'r gyfradd cyrchfannau parhaus wedi amrywio rhwng 83% yn 2014/15 ac 85% yn 2021/22 ac 86% yn 2022/23.
- Mae'r gyfradd cyflogaeth barhaus wedi amrywio rhwng 57% yn 2019/20 a 63% yn 2021/22 a 62% yn 2022/23.
- Mae'r gyfradd dysgu parhaus wedi amrywio rhwng 44% yn 2014/15 a 47% yn 2021/22 a 49% yn 2022/23.

**Cyflogaeth barhaus yn unig sy'n dal i fod yn fwyaf cyffredin fel cyrchfan barhaus.**

**Ffigur 2:** Y mathau o cyrchfan sydd gan yr holl ddysgwyr â chyrchfan barhaus, 2014/15 i 2022/23.




Disgrifiad: Roedd 37% o ddysgwyr yn 2022/23 mewn cyflogaeth barhaus yn unig, tra'r oedd gan 25% gyflogaeth a chyrchfan ddysgu barhaus. Aeth 49% o ddysgwyr yn 2022/23 ymlaen i gyrchfan ddysgu barhaus. Dyma oedd yr unig gyrchfan barhaus i 24% o ddysgwyr

[Nodyn 1] Nid yw cyfran fach o ddysgwyr â chyrchfannau parhaus 'eraill' (llai na 0.5%) wedi'u dangos yn y ffigur. Mae cyrchfannau parhaus eraill yn cynnwys dysgwyr a oedd yn ymwneud â dysgu ac/neu gyflogaeth ym mhob un o'r chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth y flwyddyn ganlynol ond nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyflogaeth


barhaus na dysgu parhaus. Mae'r gyfradd ar gyfer cyrchfannau parhaus eraill yn gyson islaw 1%.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Roedd gan yr 14% sy'n weddill o ddysgwyr ôl-16 yn 2022/23 gyrchfan nad oedd yn barhaus neu gyrchfan anhysbys. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n dysgu'n barhaus ar lefel is, a dysgwyr nad yw eu deilliant yn hysbys ym mlwyddyn y gyrchfan.

**Mae cyfraddau cyrchfannau yn amrywio yn ôl y math o ddarpariaeth dysgu a gyflawnir gan y dysgwr.**

**Ffigur 3:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 2022/23, yn ôl sector




Disgrifiad: Roedd gan ddysgwyr DSW gyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus a chyflogaeth barhaus na dysgwyr AB ac ysgol.

[Nodyn 1] Yn y ffigur hwn a thrwy gydol y datganiad, mae cyflogaeth barhaus yn cynnwys y rhai â 'chyflogaeth barhaus yn unig' a 'dysgu a chyflogaeth barhaus', ac mae dysgu parhaus yn cynnwys y rhai â 'dysgu parhaus yn unig' a 'dysgu a chyflogaeth barhaus'.

Data yn Nhabl 1b a Thabl 1c ar y daenlen gysylltiedig

Roedd dysgwyr DSW yn fwy tebygol o gael cyrchfan barhaus uwch na dysgwyr AB ac ysgol (91% o'i gymharu ag 85%). Mae hyn wedi'i sbarduno gan gyfradd llawer uwch o gyflogaeth barhaus (89% o gymharu â 55%).


O gymharu â dysgwyr DSW, mae gan ddysgwyr AB ac ysgol duedd i fod â chyfraddau dysgu parhaus uwch na chyfraddau cyflogaeth barhaus, ac eithrio 2021/22, lle'r oedd cyflogaeth barhaus 1 pwynt canran yn uwch. Mae'r duedd gyffredinol i ddysgwyr DSW gael cyfradd dysgu parhaus is a chyfradd cyflogaeth barhaus uwch, yn gyson dros amser.

## Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl lefel y rhaglen ddysgu a derfynwyd

Mae'r adran hon yn dangos y mesurau cyrchfan yn ôl y lefel astudio a orffennwyd gan y dysgwr.

**Mae cyfran y dysgwyr ym mhob categori cyrchfan yn amrywio'n sylweddol rhwng y gwahanol lefelau o raglenni dysgu.**

**Ffigur 4:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl lefel y rhaglen ddysgu a derfynwyd, 2022/23




Disgrifiad: Mae gan ddysgwyr ar lefel 3 a lefel 4+ gyfraddau cyrchfan barhaus uwch na dysgwyr ar lefel 1, sydd â'r gyfradd isaf o gyrchfannau parhaus.

[Nodyn 1] Ni cheir gwybodaeth am lefel astudio ar gyfer rhaglenni dysgu rhan-amser.


Data yn Nhabl 5a ar y daenlen gysylltiedig.

Roedd gwahaniaeth o 61 pwynt canran rhwng cyfradd cyflogaeth barhaus dysgwyr ar lefel 4, a oedd â'r gyfradd uchaf o 94%, a dysgwyr ar lefel 1, a oedd â'r gyfradd isaf o 33%.

Ar gyfer y gyfradd dysgu parhaus, roedd gwahaniaeth o 55 pwynt canran rhwng dysgwyr ar lefel 3, a oedd â'r gyfradd uchaf o 63%, o gymharu â dysgwyr ar lefel 4+, a oedd â'r gyfradd isaf o 8%.

**Mae gan ddysgwyr prentisiaeth gyfraddau cyrchfan barhaus uwch na'r holl ddysgwyr ôl-16, a ysgogir gan gyfraddau cyflogaeth barhaus uwch.**

**Ffigur 5:** Cyrchfannau dysgwyr prentisiaeth, yn ôl lefel prentisiaeth, 2022/23




Disgrifiad: Ceir cydberthynas rhwng y gwahaniaethau yng nghyfraddau'r cyrchfannau parhaus a lefel y brentisiaeth. Mae prentisiaethau lefel uwch yn tueddu i gynnwys cyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus a chyflogaeth barhaus. I'r gwrthwyneb, mae prentisiaethau'n dangos tuedd gyferbyniol o ran dysgu parhaus, lle byd cyfraddau'n gostwng wrth i lefel y brentisiaeth godi.

Ceir hyd i ddata yn Nhabl 2a ar y daenlen gysylltiedig.


Mae'r gyfradd dysgu parhaus yn amrywio rhwng 7% a 16% ar gyfer prentisiaethau yn 2022/23, sy'n sylweddol is na'r holl ddysgwyr ôl-16 ar 49%.

# Cyrchfannau dysgu parhaus ar gyfer dysgwyr ôl-16

Mae'r adran hon yn dangos mesurau cyrchfannau dysgu parhaus dysgwyr ôl-16; a yw dysgwyr yn parhau i astudio ar yr un lefel, neu ar lefel uwch, ac a yw dysgwyr yn symud ymlaen i astudio gyda darparydd AB, darparydd DSW, Darparydd Addysg Uwch (DAU) neu yn yr ysgol.

**Mae cyfraddau cyrchfannau dysgu wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser.**

**Ffigur 6:** Cyrchfan dysgu parhaus dysgwyr ôl-16, yn ôl lefel cyrchfan ddysgu, 2014/15 i 2022/23





Disgrifiad: I'r dysgwyr a oedd yn symud i gyrchfan ddysgu barhaus yn 2022/23 (49%), roedd hyn yn cynnwys 27% o ddysgwyr a oedd yn astudio ar yr un lefel a 21% o ddysgwyr a oedd yn astudio ar lefel uwch.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Er gwaethaf rhai amrywiadau, mae cyfraddau cyrchfannau dysgu parhaus wedi aros bron yr un peth dros amser, ac eithrio dysgu a chyflogaeth barhaus ar yr un lefel sydd wedi aros ar 14% ers 2020/21, sy'n uwch na'r gyfradd a welwyd am y rhan fwyaf o'r cyfnod blaenorol yn ôl i 2014/15.

**Mae cyfraddau dysgu parhaus yn amrywio yn ôl y math o ddarparydd cyrchfan.**

**Ffigur 7:** Cyrchfannau dysgu parhaus dysgwyr ôl-16, yn ôl math o ddarparydd cyrchfan, 2022/23




Disgrifiad: Dysgwyr AB ac ysgol sydd â'r gyfradd uchaf o ddysgu parhaus ar yr un lefel mewn lleoliad AB/ysgol/DSW. Mae gan ddysgwyr DSW y gyfradd uchaf o ddysgu parhaus ar lefel uwch mewn lleoliad AB/Ysgol/DSW.

[Nodyn 1] Y garfan sylfaen yw dysgwyr â chyrchfan ddysgu barhaus yn hytrach na'r holl ddysgwyr.

Data yn Nhabl 3b a Thabl 3c ar y daenlen gysylltiedig

Yn 2022/23, roedd gan 57% o ddysgwyr AB/y chweched dosbarth mewn ysgolion gyrchfan ddysgu barhaus. Roedd hyn yn cynnwys 74% o ddysgwyr a oedd yn dysgu mewn AB/yn y chweched dosbarth mewn ysgol neu gyda darparwyr DSW, a 26% a oedd DAU.

Roedd gan gyfran is o ddysgwyr DSW gyrchfan ddysgu barhaus, sef 11%. Aeth 73% o'r dysgwyr hyn ymlaen i ddysgu mewn gyda darparydd AB/DSW neu yn y chweched dosbarth mewn ysgol, ac roedd 27% yn dysgu gyda DAU.


# Cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl nodweddion dysgwyr

Mae'r adran hon yn cynnwys cyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ôl nodweddion fel rhywedd, oedran, ethnigrwydd, darpariaeth anghenion addysgol arbennig, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a degradd amddifadedd lluosog.

## Rhywedd

**Roedd dysgwyr benywaidd yn fwy tebygol o gael cyrchfan barhaus a chyflogaeth barhaus.**

**Ffigur 8a:** Cyrchfannau pob dysgwr ôl-16, yn ôl rhywedd, 2022/23





Disgrifiad: Roedd gan 87% o ddysgwyr benywaidd gyrchfan barhaus o'i gymharu ag 84% o ddysgwyr gwrywaidd yn 2022/23.

Data yn Nhabl 7a ar y daenlen gysylltiedig.

Mae'r bwlch rhwng dysgwyr gwrywaidd a benywaidd yn fwyaf amlwg mewn cyflogaeth barhaus. Er bod gan 65% o ddysgwyr benywaidd gyflogaeth barhaus, y ffigur cyfatebol ar gyfer dysgwyr gwrywaidd oedd 59%.

**Yn gyson, mae gan ddysgwyr benywaidd gyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus a chyflogaeth barhaus na dysgwyr gwrywaidd.**

**Ffigur 8b:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl rhywedd, 2016/17 a 2022/23




Disgrifiad: Mae cyfraddau cyrchfannau parhaus ar gyfer dysgwyr gwrywaidd a benywaidd wedi aros yn sefydlog dros amser.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Mae'r bwlch rhwng y rhywiau o ran cyrchfannau parhaus wedi aros ar 3 phwynt canran dros y 7 mlynedd diwethaf, ac eithrio 2017/18 lle cyrhaeddodd y bwlch 4 pwynt canran.

Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn y gyfradd gyflogaeth barhaus ychydig yn fwy ac wedi amrywio rhwng 7 ac 8 pwynt canran ers 2016/17. Yn 2022/23, roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn 7 pwynt canran.

Ers 2016/17, mae'r cyfraddau dysgu parhaus rhwng dysgwyr gwrywaidd a benywaidd wedi bod yn gymharol gyson, gan amrywio 1 pwynt canran ar y mwyaf. Yn 2022/23, roedd gan ddysgwyr gwrywaidd gyfradd dysgu parhaus ychydig yn uwch na dysgwyr benywaidd, ond yn 2021/22, roedd y cyfraddau yr un fath.

## Oedran

**Mae gan ddysgwyr 18 oed ac iau gyfraddau dysgu parhaus uwch.**

**Ffigur 9a:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl oedran, 2022/23




Disgrifiad: Mae gan ddysgwyr 18 oed ac iau dueddiadau cyferbyniol o ran cyrchfan o gymharu â grwpiau oedran eraill, gyda chyfraddau dysgu parhaus yn gyson uwch na chyfraddau cyflogaeth barhaus.

Ceir hyd i'r data yn Nhabl 6a ar y daenlen gysylltiedig.


Mae'r gyfradd dysgu parhaus ar ei huchaf i rai 18 oed ac iau, ac ar ei hisaf i'r grwpiau oedran hŷn dros amser, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu'r gyfran uwch o rai dan 18 oed sy'n mynd i addysg uwch.

Yn 2022/23, roedd y gyfradd cyflogaeth barhaus ar ei huchaf ar gyfer dysgwyr 50 oed a throsodd, sef 78%, o'i gymharu â 52% ar gyfer y rhai 18 oed ac iau. I'r gwrthwyneb, roedd y gyfradd dysgu parhaus ar ei huchaf ymhlith y rhai 18 oed ac iau, sef 67%, ac ar ei hisaf ar gyfer y dysgwyr 50 oed a throsodd, sef 19%. Dysgwyr 18 oed ac iau oedd yr unig grŵp oedran a welodd gynnydd mewn dysgu parhaus.

## Ethnigrwydd

**Mae cyfraddau'r cyrchfannau'n amrywio ar draws grwpiau ethnig.**

**Ffigur 10a:** Cyfradd cyrchfan barhaus dysgwyr ôl-16, yn ôl ethnigrwydd, 2022/23




Disgrifiad: Mae nifer y dysgwyr yn rhai o'r grwpiau mwy manwl yn llai, felly mae'r cyfraddau'n fwy anwadal.

[Nodyn 1] Nid yw'r grŵp ethnig Roma yn weladwy yn y ffigur gan fod y niferoedd yn fach a gallai'r data fod yn ddatgelol.

[Nodyn 2] Cofnodwyd 18% o ddysgwyr yn y grŵp ethnig "Gwyn" lefel uchel ar adeg pan nad oedd ond un categori yng nghasgliad data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer grwpiau ethnig Gwyn. Dangosir y dysgwyr hyn yn ffigur 11a fel "Gwyn anhysbys"

Data yn Nhabl 9a ar y daenlen gysylltiedig.


Ar draws y grwpiau ethnig cyfunol, roedd y gyfradd cyrchfannau parhaus ar ei huchaf ymhlith dysgwyr o ethnigrwydd Gwyn (87%) ac ar ei hisaf ymhlith dysgwyr o grwpiau ethnig eraill (73%). Fodd bynnag, ceir amrywiaeth o fewn y grwpiau manwl ym mhob categori. O fewn y grwpiau manwl, y grŵp ethnig Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig sydd â'r gyrchfan barhaus isaf, sef 63%, a dysgwyr yn y grŵp ethnig Indiaidd sydd â'r gyfradd uchaf sef 88%.

Dysgwyr o gefndiroedd ethnig Gwyn Anhysbys (gweler y nodyn uchod) oedd â'r gyfradd cyflogaeth barhaus uchaf, sef 68%, tra bo gan ddysgwyr o gefndiroedd ethnig Eraill y gyfradd isaf, sef 32%, ac yna dysgwyr o gefndiroedd ethnig Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig ar 37%. Yn y grwpiau cyfunol, roedd gan ddysgwyr o ethnigrwydd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig gyfradd cyflogaeth barhaus gymharol isel o gymharu â'r grwpiau cyfunol eraill, sef 45%.

I'r gwrthwyneb, wrth edrych ar draws y grwpiau cyfunol, roedd y gyfradd dysgu parhaus ar ei huchaf ymhlith dysgwyr yn y grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, ar 61%. Wrth edrych ar y grwpiau mwy manwl, y grŵp ethnig Bangladeshaidd oedd â'r gyfradd dysgu parhaus uchaf, ar 68%. Gwelwyd y gyfradd isaf ymhlith dysgwyr o ethnigrwydd Gwyn Anhysbys (gweler y nodyn uchod), ar 39%.

**Dros amser, mae gan ddysgwyr o ethnigrwydd Gwyn gyfraddau cyflogaeth barhaus cyson uwch.**

**Ffigur 10b:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl ethnigrwydd, 2016/17 i 2022/23




Disgrifiad: Yn dilyn gostyngiad yn 2019/20, mae cyflogaeth barhaus wedi dychwelyd i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd cyn y pandemig.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Yn 2021/22, gostyngodd neu arhosodd y gyfradd dysgu parhaus yr un peth ar gyfer pob grŵp ethnig. Fodd bynnag, yn 2022/23, cynyddodd neu arhosodd dysgu parhaus yr un peth, ar wahân i'r grŵp ethnigrwydd Arall a ostyngodd 1 pwynt canran.

Y grŵp a ddangosodd y gwahaniaeth mwyaf o flwyddyn i flwyddyn oedd y grŵp ethnig Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig/Du Cymreig, lle cynyddodd y gyfradd cyrchfan barhaus 3 phwynt canran o 79% yn 2021/22 i 82% yn 2022/23.

Y grŵp ethnigrwydd Gwyn sydd i gyfrif am tua 9 allan o 10 dysgwr, felly mae ei dueddiadau'n cael cryn effaith ar dueddiadau'r holl ddysgwyr.

## Darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

I gael gwybodaeth am AAA/ADY, defnyddiwyd y Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED) i gysylltu myfyrwyr yn ein set ddata LEO â'u cofnod Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler y ddogfen Ansawdd a Methodoleg gysylltiedig.

Dim ond dysgwyr yr oedd modd eu paru â CYBLD a gysylltwyd felly mae nifer y myfyrwyr sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn yn llai na chyfanswm y garfan cyrchfannau. Gan hynny, nid yw'r dadansoddiad hwn ond yn cynrychioli 67% o garfan 2022/23, a dylid ei drin fel dadansoddiad annibynnol, a pheidio â'i gymharu â gweddill y datganiad.

Er enghraifft, mae gan y dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur isod broffil demograffig iau na gweddill y datganiad hwn. Mae Ffigurau 10a a 10b yn dangos bod gan ddysgwyr iau gyfradd is o gyflogaeth barhaus na'r garfan gyfan, felly mae cyfradd cyflogaeth barhaus yr holl fyfyrwyr yn ffigur 12a yn is nag a ddangosir ar gyfer cyfansymiau yng ngweddill y datganiad hwn.


Y statws AAA/ADY a ddangosir ar gyfer dysgwyr yn y dadansoddiad hwn yw'r cofnod diweddaraf o ddarpariaeth AAA/ADY a oedd ar eu cofnod CYBLD, e.e. os oedd gan ddysgwr yn LLWR un math o ddarpariaeth AAA/ADY ym mlwyddyn 10, ac un arall ym mlwyddyn 11, mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio'r hyn a gofnodwyd pan yr oedd ym mlwyddyn 11.

Efallai fod gan ddysgwyr ag AAA Ddatganiadau wedi'u cyhoeddi gan yr ALl neu efallai fod eu hanghenion wedi'u  nodi gan yr ysgol. Yn yr achos olaf maent wedi'u cynnwys o dan un o ddau gategori pellach: Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Cofnodir bod gan nifer bach o ddysgwyr yng ngharfan 2022/23 Gynlluniau Datblygu Unigol o dan y system ADY. Gweler y nodiadau am ragor o wybodaeth.

**Mae gan ddysgwyr â darpariaeth AAA/ADY gyfraddau is o ddysgu parhaus, cyflogaeth barhaus a chyrchfan barhaus.**

**Ffigur 11a:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl darpariaeth AAA/ADY, 2022/23



Disgrifiad: Roedd y gyfradd cyrchfan barhaus ar gyfer 2022/23 ar ei huchaf ar gyfer dysgwyr heb unrhyw ddarpariaeth AAA/ADY, sef 89%. O'r dysgwyr â darpariaeth AAA, roedd y gyfradd ar ei huchaf ymhlith rhai â Gweithredu gan yr Ysgol, sef 82% ac ar ei hisaf ymhlith rhai â datganiad o AAA, sef 71%.


Data yn Nhabl 8a ar y daenlen gysylltiedig.

Gwelwyd yr un patrwm ar gyfer y gyfradd cyflogaeth barhaus, lle'r oedd gan ddysgwyr heb AAA/ADY y gyfradd uchaf, sef 59%, a'r rhai â datganiad o AAA y gyfradd isaf, sef 27%.

Yn yr un modd, roedd y gyfradd dysgu parhaus ar ei huchaf hefyd ar gyfer myfyrwyr heb ddarpariaeth AAA/ADY sef 62%, ond y rhai â datganiad o AAA oedd â'r gyfradd dysgu parhaus uchaf o blith yr holl fyfyrwyr â darpariaeth AAA, sef 56%. Roedd y gyfradd dysgu parhaus ar ei hisaf ymhlith rhai â darpariaeth Gweithredu gan yr Ysgol, ar 48%.

**Yn gyffredinol, mae'r gyfradd cyrchfan barhaus ar gyfer dysgwyr heb AAA/ADY yn gyson dros amser.**

**Ffigur 11b:** Canran y dysgwyr ôl-16 sydd â chyrchfan barhaus, yn ôl ddarpariaeth AAA/ADY, 2016/17 i 2022/23




Disgrifiad: Yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd bach dros amser ymhlith dysgwyr â darpariaeth AAA/ADY. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad amlwg ar gyfer pob un o'r tri chategori AAA yn 2021/22.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Mae'r gyfradd cyrchfan barhaus wedi cynyddu yn 2022/23 ar gyfer dysgwyr â darpariaeth AAA/ADY.

At ei gilydd, mae'r gyfradd cyrchfan barhaus ar gyfer dysgwyr â darpariaeth Gweithredu gan yr Ysgol wedi cynyddu o 79% yn 2016/17 i 82% yn 2022/23. Roedd hefyd ar 82% yn 2020/21, ond gostyngodd y gyfradd i 80% yn 2021/22.

Mae gan ddysgwyr sydd â darpariaeth Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy duedd fwy amrywiol o ran cyrchfannau parhaus, ond gwelwyd cynnydd cyffredinol o 71% i 76% ers 2016/17.

Mae'r gyfradd cyrchfan barhaus ar gyfer dysgwyr â datganiad AAA wedi bod yn gymharol sefydlog rhwng 2016/17 a 2022/23, gan gynyddu o 69% i 71%.


## Cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYaDd)

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma hefyd yn seiliedig ar ddefnyddio'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED) i gysylltu myfyrwyr yn y set ddata LEO â'u cofnod CYBLD. Mae'r gyfradd baru, a'r materion cysylltiedig wrth gymharu'r dadansoddiad hwn a'r hyn a gyflwynir yn rhannau eraill y datganiad, yn unol â'r disgrifiad yn yr adran ar Anghenion Addysgol Arbennig.

Y cymhwysedd i gael PYaDd a ddangosir ar gyfer dysgwyr yn y dadansoddiad hwn yw'r cofnod diweddaraf o gymhwysedd i gael PYaDd a oedd ganddynt yn CYBLD, e.e. os oedd dysgwr yn LLWR yn gymwys i gael PYaDd ym mlwyddyn 10, ond yna wedi'i gofnodi fel rhywun nad oedd yn gymwys ym mlwyddyn 11, byddai'n cael ei gofnodi yn y dadansoddiad hwn fel rhywun nad yw'n gymwys.

**Roedd dysgwyr nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd yn fwy tebygol o gael cyrchfan barhaus, cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus.**

**Ffigur 12a:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl cymhwysedd i gael PYaDd, 2022/23





Disgrifiad: Mae cyfraddau cyrchfan barhaus, cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus yn uwch i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd nag i ddysgwyr sy'n gymwys i gael PYaDd.

Data yn Nhabl 10a ar y daenlen gysylltiedig.

Mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau ar ei isaf ar gyfer dysgu parhaus, gyda bwlch o 8 pwynt canran. I'r gwrthwyneb, y bwlch yn y gyfradd cyflogaeth barhaus sydd fwyaf, sef 16 pwynt canran.

**Mae'r gyrchfan barhaus ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael PYaDd a dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd wedi cynyddu yn 2022/23.**

**Ffigur 12b:** Canran y dysgwyr ôl-16 sydd â chyrchfan barhaus, yn ôl cymhwysedd i gael PYaDd, 2016/17 i 2022/23




Disgrifiad: Mae'r gyfradd cyrchfannau parhaus yn sefydlog dros amser ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar 88%, gan gynyddu fymryn yn 2020/21 a 2022/23. I ddysgwyr sy'n gymwys i gael PYaDd, mae'r gyfradd cyrchfan barhaus wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd, gan gyrraedd 77% yn 2022/23.

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Dros amser, mae gan ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd gyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus na dysgwyr sy'n gymwys i gael PYaDd. Mae'r patrwm hwn hefyd yn wir am gyflogaeth barhaus a dysgu parhaus.


12 pwynt canran oedd y bwlch rhwng myfyrwyr a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent yn gymwys yn 2022/23, sydd ychydig yn llai na'r bwlch yn y flwyddyn flaenorol (14%).

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynoadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r ardaloedd bach hyn wedi cael eu rhestru, yn ôl MALIC 2019, ac wedi'u grwpio'n ddegraddau. Defnyddir cod post preswylio'r dysgwr i nodi degradd amddifadedd ei ardal. Nid yw'r dull hwn o fesur amddifadedd yn seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt eu hunain yn profi amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd, ac fel arall. Ni ellir priodoli cyfran fach o godau post i ddegradd MALIC, h.y. rhai sydd yn Lloegr, neu lle bo ansawdd y data yn wael.

**Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr o'r ardaloedd sydd â'r lleiaf o amddifadedd gyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus, cyflogaeth barhaus a dysgu parhaus.**

**Ffigur 13a:** Cyrchfannau dysgwyr ôl-16, yn ôl degradd MALIC, 2022/23





Disgrifiad: Ar gyfer dysgwyr yn y 10% o gymdogaethau â'r mwyaf o amddifadedd, roedd y gyfradd cyrchfan barhaus 11 pwynt canran yn is na'r gyfradd ar gyfer dysgwyr o'r 10% o gymdogaethau â'r lleiaf o amddifadedd (80% o gymharu â 91%).

Data yn Nhabl 11a ar y daenlen gysylltiedig.

14 pwynt canran oedd y bwlch rhwng y gyfradd dysgu barhaus yn yr ardaloedd â'r mwyaf a'r lleiaf o amddifadedd (46% o gymharu â 60%). Roedd y bwlch mewn cyflogaeth barhaus yn llai, gyda 9 pwynt canran rhwng yr ardaloedd â'r mwyaf a'r lleiaf o amddifadedd (54% o gymharu â 63%),er bod y gyfradd ar ei huchaf yn negraddau 7 a 9 (65%).

**Yn gyson, mae gan ddysgwyr o'r ardaloedd â'r lleiaf o amddifadedd gyfraddau uwch o gyrchfannau parhaus.**

**Ffigur 13b:** Canran y dysgwyr ôl-16 sydd â chyrchfan barhaus, yn ôl grŵp amddifadedd MALIC, 2016/17 i 2022/23




Disgrifiad: Mae degraddau wedi cael eu cyfuno i greu 5 grŵp. Er enghraifft, mae'r 50% â'r lleiaf o amddifadedd yn cynnwys dysgwyr o'r 5 degradd â'r lleiaf o amddifadedd

[Nodyn d] Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u diwygio â'r data diweddaraf. Am fanylion, gweler yr wybodaeth allweddol am ansawdd.

Yn 2021/22, bu gostyngiad yn y cyrchfannau parhaus ar gyfer pob grŵp. Fodd bynnag, yn 2022/23, bu cynnydd ym mhob grŵp ac eithrio'r 50% 'r lleiaf o amddifadedd, sydd wedi aros yr un peth.

## Geirfa

### Blwyddyn academaidd

Ar gyfer ysgolion, mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau o 1 Medi i 31 Awst. Ar gyfer colegau, y flwyddyn academaidd yw 1 Awst i 31 Gorffennaf.

### Oedran

Cyfrifir oedran dysgwyr o 31 Awst ar ddechrau ei flwyddyn UG ar gyfer addysg gyffredinol, ac ar ddechrau'r flwyddyn a enwir ar gyfer addysg alwedigaethol.

### Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn unol â safonau cysoni Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei hadrodd gan y dysgwr ei hun.

### PYaDd

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol. Ni chaiff dysgwyr ond eu cofnodi'n gymwys os ydynt wedi gwneud cais i'w hawdurdod lleol am brydau ysgol am ddim.

### Rhaglen

Rhaglen yw casgliad o gymwysterau y bydd dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, gall rhaglen Safon Uwch gynnwys tair Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Enghraifft o raglen alwedigaethol fyddai 'Gwaith Saer ac Asiedydd Lefel 1', sy'n cynnwys astudio 'Diploma mewn Gwaith Saer ac Asiedydd' fel y prif cymhwyster, ynghyd ag unrhyw gymwysterau ategol, fel mathemateg cyn-TGAU.

### Disgyblion â datganiadau

Disgyblion y mae'r Awdurdod yn cadw datganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer o dan Ran iv o Ddeddf Addysg 1996. Gall yr ALl gyhoeddi datganiad ar ôl asesu anghenion plentyn.

### Gweithredu gan yr Ysgol

Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

### Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Pan fydd yr athro dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn cael cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol, fel y gellir rhoi ymyriadau amgen ar waith sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl drwy 'Gweithredu gan yr Ysgol'. Fel arfer, y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig sy'n arwain er mai'r athro dosbarth neu'r athro pwnc fydd yn parhau i fod â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd.

# Nodiadau

Cyhoeddir tablau ochr yn ochr â'r datganiad hwn sy'n cynnwys yr holl ddata a gyflwynir yma, a data pellach.

## Amseroldeb y cyhoeddiad hwn

Ni chyhoeddwyd y datganiad hwn yn hydref 2024, pan ddylai data ar gyfer 2021/22 fod wedi cael eu cyhoeddi. Roedd hyn yn deillio o sawl ffactor.

Daeth Medr yn weithredol ym mis Awst 2024. Roedd hyn yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gyhoeddi'r rhan fwyaf o'r ystadegau ar y sector addysg drydyddol a oedd yn cael eu cyhoeddi'n flaenorol gan ei sefydliadau rhagflaenol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cymerodd beth amser i sicrhau cytundebau i Medr gael mynediad at y data LEO sy'n sail i'r ystadegau hyn.

Mae data ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn y datganiad hwn, ochr yn ochr â data ar gyfer 2022/23.

## Effaith Covid-19

Mae'r mesurau yn y datganiad hwn yn cynnwys dysgwyr mewn addysg ôl-16 hyd at fis Gorffennaf 2023, a'u cyrchfannau hyd at fis Mawrth 2024. Mae'r data felly yn cwmpasu cyfnodau pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Cyhoeddwyd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf yn 2020 ar 23 Mawrth 2020, yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Parhaodd cyfyngiadau symud neu gyfyngiadau eraill dilynol yn weithredol dro y cyfnod a drafodir yn y datganiad hwn. Yn dilyn Covid-19, rhoddodd y cyhoeddiad awgrym cychwynnol o effaith bosibl y pandemig ar y dysgwyr hyn [Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyrchfannau dysgwyr, 2019/20 (ystadegau arbrofol).]

Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar hynny drwy ddangos cyrchfannau dysgwyr mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae'n bosib yr effeithiwyd ar ddysgwyr yn ystod eu hastudiaethau, yn eu cyrchfannau dilynol, neu'r ddau.

## Dysgwyr wedi'u Dadleoli

Yn dilyn rhai newidiadau i drefniadau contract dysgu seiliedig ar waith newydd, bwriadwyd eithrio dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar raglen brentisiaeth a drosglwyddodd i ddarparydd newydd o'r dadansoddiad yn fersiwn flaenorol y datganiad hwn, ond ni wnaed hynny.

Dim ond o garfan ymadawyr 2020/21 y mae'r dysgwyr hyn wedi'u heithrio, a ddylai fod wedi eithrio oddeutu 4,000 o ddysgwyr. O ganlyniad i hynny, mae cyfran y dysgwyr dysgu seiliedig ar waith wedi gostwng tua 3 phwynt canran o 25% i 22%. Mae'r effaith yn fwyaf amlwg ar y gyfradd dysgu parhaus ar gyfer dysgwyr dysgu seiliedig ar waith, sy'n dangos gostyngiad o 9 pwynt canran. Mae'r mater hwn bellach wedi'i gywiro ac mae ffigurau diwygiedig sy'n adlewyrchu eithrio'r dysgwyr hyn wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn.

## Dysgwyr â mwy nag un rhaglen ddysgu

Mewn fersiynau blaenorol o'r datganiad, lle bo gan ddysgwr fwy nag un rhaglen, cadwyd y rhaglen â'r dyddiad dechrau diweddaraf yn y dadansoddiad. O adolygu'r dull hwn, nodwyd achosion lle'r adroddwyd am rai dysgwyr yn erbyn rhaglen nad oedd yn cynrychioli eu prif raglen astudio, er enghraifft dysgwyr a oedd yn dilyn rhaglen ran-amser ochr yn ochr â rhaglen amser llawn.

Er mwyn sicrhau bod y rhaglen ddysgu gywir yn cael ei chadw yn y dadansoddiad, cyflwynwyd newidiadau i'r fethodoleg. I ddibenion adrodd, dewisir y rhaglen astudio ar sail y dyddiad gorffen diweddaraf a, lle bo gan ddysgwr amryw o raglenni â'r un dyddiad gorffen, mae'r fethodoleg wedyn yn dewis y rhaglen ar y lefel uchaf. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad ym meintiau carfannau ar lefel ran-amser, sy'n amrywio rhwng 0.1% a 7.8% rhwng 2014/15 a 2020/21.

Gwelwyd symudiad hefyd o ddysgu parhaus ar lefel uwch i ddysgu parhaus ar yr un lefel gan fod rhagor o ddysgwyr yn cael eu cyfrif yn erbyn lefelau uwch mewn carfannau o ymadawyr. Felly, mae dysgu lefel uwch parhaus fel cyfran o'r holl ddysgu parhaus wedi gostwng, ac mae'r gostyngiad yn amrywio o 0.05 i 4.7 pwynt canran rhwng 2014/15 a 2020/21.

Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi cael eu diwygio i gynnwys y newid ac wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn. Byddwn yn parhau i adolygu'r agwedd hon ar y fethodoleg.

## Newidiadau i ddata anghenion addysgol arbennig ar ôl i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gael ei gweithredu.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar ddechrau blwyddyn academaidd 2021/22. Symudodd dysgwyr o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros dair blynedd, er mwyn sicrhau digon o amser i feithrinfeydd, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol drafod y cymorth y bydd ei angen a pharatoi cynlluniau.

Carfan 2022/23 yn y datganiad hwn yw'r gyntaf sy'n cynnwys cymysgedd o godau darpariaeth AAA ac ADY yn y dadansoddiad a gyflwynir ar dudalennau 16 i 18. Cofnodir bod gan 50 o ddysgwyr yng ngharfan 2022/23 Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a gynhelir gan naill ai ysgolion neu awdurdodau lleol o dan y system ADY yn eu cofnod CYBLD blwyddyn 11. Gan fod y nifer yn fach, ni chyflwynir categori darpariaeth ar wahân ar gyfer dysgwyr â CDUau, ond cânt eu cynnwys yn y ffigurau “pob disgybl AAA/ADY”.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen gysylltiedig Ansawdd a Methodoleg: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyrchfannau dysgu am wybodaeth fanwl.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r safonau disgwyliedig o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus wedi'u dangos a'u gwella yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Mae'r mesurau wedi cael eu datblygu gan ystadegwyr proffesiynol yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a chedwir at brotocolau'n gysylltiedig â chyfrinachedd data.

Yn achlysurol, gellir gwneud diwygiadau yn sgil gwallau i'n prosesau ystadegol neu pan fo cyflenwyr data yn hysbysu Medr eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, ystyrir a yw'r newid yn ddigon sylweddol fel bod angen cyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Os na thybir bod y newidiadau'n sylweddol, bydd y ffigurau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

Caiff cyfraddau'r cyrchfannau a gyhoeddwyd yn flaenorol eu hailgyfrifo drwy ddefnyddio'r data diweddaraf wedi'u paru a oedd ar gael wrth gyhoeddi, oherwydd gallent arwain at gyfradd baru uwch. Bach iawn yw'r effaith ar y cyfraddau ond gallai'r ffigurau fod fymryn yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn flaenorol.

## Ansawdd

Cyfrifir y mesurau drwy ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol sydd eisoes gan y llywodraeth, heb roi unrhyw faich ychwanegol ar ddarparwyr, unigolion na chyflogwyr i gasglu gwybodaeth newydd. Mae cofnodion dysgwyr o'r LLWR a'r Casgliad Data Ôl-16 yn cael eu cysylltu â data'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi i arsylwi gweithgarwch budd-daliadau a chyflogaeth, ac â setiau data addysg eraill i arsylwi gweithgarwch ôl-ddysgu. Bob blwyddyn, mae rhwng 97% a 98% o ddysgwyr yn cael eu paru â data Yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Adran Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, gan roi ymdriniaeth gynrychioliadol â gweithgarwch.

Am sawl rheswm, ni fyddai byth disgwyl i'r gyfradd baru gyrraedd 100%, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth bersonol yn anghywir yn y setiau data a ddefnyddir yn yr ymarfer paru a dysgwyr sy'n symud i wledydd tramor ac ati.

Mae'r cyfraddau a gyfrifwyd yn y blynyddoedd cynt ac sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn wedi cael eu hailgyfrifo drwy ddefnyddio'r data diweddaraf wedi'u paru a

oedd ar gael ar adeg cyhoeddi, felly gallent arwain at gyfradd baru uwch. Ni cheir rhyw lawer o effaith ar y cyfraddau, ond gallai ffigurau amrywio rhywfaint o gymharu â rhai a gyflwynwyd mewn dogfennau blaenorol yn y gyfres hon. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg o'r cyrchfannau cyflogaeth a dysgu (gan gynnwys addysg uwch) ar gyfer dysgwyr addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion a dysgu seiliedig ar waith yn y flwyddyn yn dilyn eu rhaglen astudio. Mae cynhyrchu'r ystadegau hyn o gymorth i roi tystiolaeth i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae dysgwyr yn ei wneud ar ôl eu hastudiaethau.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Canlyniadau arholiad: Medi 2024 i Awst 2025 (dros dro)
a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adrodd ar ganlyniadau arholiadau Safon Uwch ysgolion ar sail y niferoedd o geisiadau.

Mae'r Cyngor Cydweithredol ar gyfer Cymwysterau yn cyhoeddi Canlyniadau Safon Uwch ac UG ar sail yr arholiadau y gwnaeth dysgwyr eu sefyll.

Mae'r gyfres Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) yn rhan o'r gyfres o fesurau perfformiad cyson, y mae'r datganiad hwn hefyd yn rhan ohoni.

Cafodd Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2023 i Orffennaf 2024 ei chyhoeddi gan Medr ar 4 Mawrth 2025.

Cyhoeddwyd Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau, Awst 2023 i Orffennaf 2024 gan Medr ar 12 Mawrth 2025.

Cyhoeddwyd Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025 gan Medr ar 25 Chwefror 2025.

Cyhoeddwyd Deilliannau Graddedigion, 2022/23 gan Medr ar 23 Gorffennaf 2025.

## Y diweddariad nesaf

Dyddiad: Hydref 2026.

Cyfnod a drafodir: Awst 2023 i Orffennaf 2024.

Mae’n bosibl na fydd y diweddariad nesaf i’r ystadegau hyn ar yr un ffurf â’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i:
ystadegau@medr.cymru

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**